

Papur Pawb

Pris: 40c

Tachwedd 2007

Rhif 333



C.Ff.I – Bechgyn y Meim – tud 6

Fferm Wynt Moel Fferm?

Mae'n debyg fod rhan helaeth o ddarllenwyr Papur Pawb yn ymwybodol erbyn hyn fod cynlluniau ar droed gan gwmni Airtricity, mewn partneriaeth a chwmmi Dulas, i gyflwyno cais cynllunio ar gyfer fferm wynt o hyd at 22 o dyrbinau ar dir rhwng pentref Tal-y-bont a Chronfa Nant-y-moch. Mae'r cwmni ar hyn o bryd yn cynnal rhaglen ymgynghori yn y gymuned leol, a chynhaliwyd dwy arddangosfa yma yn Nhal-y-bont a Phenrhyn-coch ddiwedd mis Hydref. Mynychwyd y ddau gyfarfod gan nifer o drigolion yr ardal.

Pwy yw Airtricity? Mae'n gwmni ynni adnewyddadwy blaenllaw sy'n datblygu a rheoli ffermydd gwynt ar draws Ewrop a Gogledd America. Mae gan y cwmni nifer o ffermydd gwynt yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae'r cynllun arfaethedig yn Nhal-y-bont yn rhan o dŵf y cwmni yma yng Nghymru. Yn ddiweddar enwyd Airtricity fel un o'r tri Datblygwr sydd wedi eu gwahodd i gynnig am ddatblygu fferm wynt 100MW, yn unol â chaniatad cynllunio, ar dir Llywodraeth Cynulliad Cymru a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae safle cynllun Moel Fferm ei hun wedi'i leoli yn bennaf o fewn un o saith Safle Chwilio Strategol y Llywodraeth a ystyrir yn addas ar gyfer ffermydd gwynt mawrion.

Amcangyfrifir, ar sail ffigyrau cynhyrchu ffermydd gwynt eraill, y bydd Cynllun Fferm Wynt Moel Fferm yn debygol o gynhyrchu hyd at 44MW o drydan, digon ar gyfer tua 24,600 o gartrefi, tua 79% o anneddau



Ceredigion. Honnir y byddai'r datblygiad yn arbed hyd at 99,000 tonnall o garbon deuocsid yn flynyddol. Efallai mai'r hyn sy'n drawiadol am y cynllun hwn yw maint y tyrbinau eu hunain a fydd yn 125 metr o uchder i flaenau'r llafnau. Mwy na dim a welwyd yn ardal Tal-y-bont o'r blaen.

Wrth gwrs nid yw datblygiad o'r fath yn cael ei wireddu dros nos, a phe byddai'r cais cynllunio yn llwyddo fe fyddai'n golygu cyfnod prysur o adeiladu. Mae'r cynllun yn cynnwys is-orsaf, lonydd mynediad a mastiau monitro gwynt parhaol a byddai rhaid cludo darnau i'r safle ar hyd yr A487. Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig o ran faint o effaith fyddai hyn yn ei gael ar

drafnidiaeth a fframwaith ffyrdd arferol yr ardal. Mae'r cwmni eisoes wedi cynnal ymchwil cychwynol i weld os y gall y loriau mawr droi am ffordd Nant-y-moch o'r A487 ger y patshyn glas. Dywedwyd wrth Papur Pawb fod angen gwneud gwaith ymchwil pellach, ond o bosib fe fydd angen mynd â darn o'r patshyn glas i ffwrdd yn dilyn trafodaeth gyda'r Cyngor Sir, cyn ei adfer nôl i'w gyflwr gwreiddiol yn dilyn y gwaith adeiladu. Dywedir y bydd 15% o'r gwaith adeiladu yn cael ei wario yn y rhanbarth leol, er na nodir diffuniad y cwmni o lleol.

Disgwylir y bydd gan y fferm wynt arfaethedig oes weithredol o 25 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn darperir cronfa gymunedol o tua £44,000 y flwyddyn, tua £1.1

miliwn dros oes y cynllun. Bydd hwn ar gael ar gyfer prosiectau a mentrau cymunedol o fewn yr ardal yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y fferm wynt. Mae Airtricity wedi rhoi blaenoriaeth i brosiectau amgylcheddol yn y gorffennol.

Mae'r cwmni yn disgwyl cyflwyno'r cynnig i Gyngor Sir Ceredigion cyn diwedd y flwyddyn, yn dilyn y cyfnod ymgynghori. Os ydych yn dymuno cael mwy o wybodaeth am y cynllun gellir cysylltu gyda'r cwmni yn rhad ac am ddim ar 0800 1695290 neu Airtricity, Fferm Wynt Moel Fferm, RHADBOST (MR8689), Manceinion M3 9IP. Rhaid aros i weld a fydd fferm wynt arall yn datblygu yn yr ardal.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832473
Tynnu lluniau: Teipyddes:		
Bont-goch: Parsel Henllys: Eglwysfach: Talesin: Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch Dilys Morgan, Alltgoch Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Mai Leeding, Glannant, Talesin Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Janet Evans, Cefngweiriog Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832295 832498 (01654) 781312 832672 832438 832201 832429 (01654) 781260 832483
Tre'r Ddôl: Maes y Deri:		
Cadeirydd: Is-gadeirydd: Ysgrifennydd: Trysorydd: Aelodaeth: Hysbysebion: Plygu: Dosbarthwyr:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgrifiadau)	832448 832384 832560 832438 (01654) 781312

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyron

Annwyl Olygydd

Difyr oedd darllen ymholiad Gwilym Jenkins yn rhifyn Hydref (332) o Papur Pawb. Gobeithio bydd y canlynol o ddiddordeb i Gwilym, ac eraill o'ch darllenwyr.

Enwyd 'Rhiw Sion Saer' ar ôl John Sayer (1785–1850). Roedd ef yn flaenllaw efo'r gweithfeydd mwyn, a mwy na thebyg yn gyfrifol am gynllunio neu wneud y rhan yma o'r ffordd. Ac os ydi hynny yn profi rhywbeth, enw arall ar Goginan flynyddoedd yn ôl oedd 'Pentre Saer'. Mae John Sayer wedi ei gladdu yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor. Ar ei garreg fedd mae y geiriau yma:

To the memory of John Sayer of Yorkshire, for many years a resident of this County, who for his honesty and integrity won for him the respect of all who knew him ... This stone was erected by his sincere friends, Mathew and Absalom Francis.

Un sydd yn sicr o wybod mwy o'i hanes fyddai Simon Hughes, Stryd Leri.

Mae y 'Lôn lifing' beth yn fwy cymleth, ond dyma yn frâs darddiad yr enw. Wrth fynd i gyfeiriad y Gogledd Ddwyrain o'r 'AA Bocs', neu lle mae y gylchfan newydd ar yr A44 ger Lovesgrove, mae yna gwm a elwir yn 'Gwm-tŷ-llwyd'. Mae yna fwthyn ym mhen uchaf y cwm, a'r enw pwrpasol, 'Blaen-cwm', neu 'Tŷ John Hughes y ciper' i drigolion lleol. Ar hen fap yn ddyddiedig 1769 mae 'Tŷ Llwyd House' yn cael ei nodi.

Flynyddoedd maith iawn yn ôl roedd yna Eglwys yn ymyl

gwaelod y cwm (Eglwys Tŷ Llwyd), a dyna sut y daeth yr enw 'living' i fod, gan fod yr Eglwys yn fywoliaeth i'r Offeiriad. Mae yna ddau enw yn dal ar gaeu cyfagos sydd yn nodweddi eu cysylltiad a'r llall, sef 'Cae Capel' ac hefyd 'Cae Bara Can'.

Mae yr hen 'Lôn living' yn ymyl, lle mae y farchnad newydd yn cael ei chynnal, ac yn mynd yn ei blaen tuar' Gogledd drwy gae a elwir yn 'Cae Cripiau'. Daeth dyn o'r enw Jack Humphreys (a fu farw tua hanner can mlynedd yn ôl) o Gapel Bangor, a oedd yn gweithio yn Lovesgrove pan yn ifanc, ar draws carreg fedd ac arni y geiriau, 'Aeres Felin-hen'. Pan oedd yn bugeilio yn Lovesgrove bum yn chwilota llawer yn y fan yma i weld prun a oedd yna hen olion i'w cael, ond ofer fu'r edrych.

Enw bach arall wrth basio ydi 'Rhiw drws coch' sef y rhiw sydd yn arwain o'r 'AA Bocs' heibio fferm Lovesgrove. Enwyd hon oherwydd bod y drws sydd yn y mur ger y ffordd yn arfer cael ei baentio yn goch. Cafodd darn yma o ffordd ei hail-wneud i'w gwedd bresennol ym mis Mai 1931, ac efallai mai dyma pryd y codwyd y mur.

*Yn gywir
Erwyd Howells*

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profesiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personal

Martin Davis
14-y-coed, The Taliesin, MACHYNLETH
Ffôn/Ffacs +44 (0)1297 832239 afiaith@aol.com

Dyddiadur

Tachwedd

- 11 **Bethel** 2 Raymond Davies
Nasareth 5 Tudor Davies
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Cymun Bendigaid
- 13 **C.Ff.I.** – Ymweliad â pharlwr godro, Cwmwythig
- 13 **Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa**, Tal-y-bont, 8.00
- 14 **Cwmni Theatr Bara Caws** yn y Neuadd Goffa, 7.30
- 15 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont**. Athro Peter Wathern
- 17 **C.Ff.I.** Eisteddfod C.Ff.I. Cymru
- 18 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 2 Bugail
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
- 19 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch**. Idris a Mari Evans, Cig Oen Maethlon
- 20 **C.Ff.I.** Noson gyda Enfy Evans, Llanddeiniol, a'i thaith i'r Rali Ewropeaidd
- 22 **AGM Ffrindiau Cartref Tregerddan**, Cartref Tregerddan 7.30
- 24 **Ffair y Neuadd**, Neuadd Goffa Tal-y-bont, 2.00
- 25 **Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth 2 R. H. Lewis (Bethel)
Rehoboth 5 Tudor Davies (C)
Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreol Weddi
- 27 **C.Ff.I.** Cyfarfod a noson o waith crefft

Rhagfyr

- 2 **Bethel** 6 Gweinidog
Nasareth 6 R. H. Lewis (Bethel)
Rehoboth 5 T. J. Irfon Evans
Eglwys Dewi Sant 2.30
Cymun Bendigaid
- 3 **C.Ff.I.** – Cwis y Sir
- 4 **C.Ff.I.** – Parti Nadolig

**Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN**

Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

- 9 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 10 Elwyn Pryse
Rehoboth 5 Elwyn Pryse (C)
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Cymun Bendigaid
- 11 **C.Ff.I.** – Canu Carolau
- 12 **Pwyllgor Rheoli'r Neuadd**, Neuadd Goffa
- 16 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 10 R. H. Lewis (Bethel)
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
- 16 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch**, noson o garolau ac eitemau gan gymdeithasau Tal-y-bont a'r Cylch, Capel Rehoboth, Talesin, 6.00
- 18 **C.Ff.I.** – Canu Carolau
- 19 **Sioe Tal-y-bont** - Gyrfa Chwist, Neuadd Goffa, 8.00
- 23 **Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth 5.30
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreol Weddi
- 24 **Bethel** 5.30 Gwasanaeth Nadolig y Plant
- 25 **Bethel** 10 Gweinidog
- 30 **Bethel** 6 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 10
Llangorwen

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Catrin a Rhian gyda Ceri'n dylunio.
Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Gwyn a Fal 832560 a Sara a Ian.
Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn 7 Rhagfyr a bydd y papur ar werth dydd Gwener 14 Rhagfyr.

Genedigaeth merch

Llongyfarchiadau i Non a Gerwyn Jones, 14 Dôl Pistyll, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu merch fach, Glain Erin, ddydd Mercher 17 Hydref. Pob dymuniad da hefyd i tad-cu a mam-gu, sef Reg ac Eurllys Jones, Eurfan.

Bedydd

Bore Sul 28 Hydref yng nghapel Bethel, Tal-y-bont, gyda'r gweinidog, y Parch. Richard Lewis yn gweinyddu, bedyddiwyd Miriam Llwyd Davies, ail ferch Catrin Mai ac Iestyn, Tŷ Gwyn, Tal-y-bont, a chwaer i Glain. Canodd plant yr Ysgol Sul gân fach arbennig, a chyfeiliwyd iddynt gan Anwen Jenkins, Tyngraig.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn gyda Eirian ac Aled Jones gynt o Lys Dewi, Tal-y-bont, ar golli eu tad Mike Jones yn ddiweddar.

Pen-blwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Trevor Jones, 24 Maes y Deri ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar 25 Hydref.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Eurig Richards, 6 Maes y Deri, sydd bellach adre ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen. Hefyd, i Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais, ar ôl triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cofion Gorau

Cofion at Bob Williams, Penwern, Tal-y-bont, yn dilyn damwain ger marchnad Dolgellau yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mr Machreth Evans, gynt o fferm Erglodd, Taliesin, a fu farw'n ddiweddar.

Hefyd gyda Terry a Dwynwen a'r teulu, Stabla'r Gwynfryn, ar golli tad Terry, Mr Bill Evans o Fachynlleth.

Dathlu Penblwydd Priodas

Llongyfarchiadau i Emyr ac Edna Thomas, Lletylwydin, Tre'r Ddôl ar ddathlu eu priodas aur, ac i Aeron ac Aileen Williams, Maesymeillion ar ddathlu eu priodas ruddem yn ystod mis Hydref.


Dyweddio

Llongyfarchiadau i Amy Lewis Tre'r Ddôl, ar ei dyweddian gyda Aled James, Sir Benfro.

Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau i Sion Nelmes, B3 ar ennill y wobr gyntaf am arlunio 'Y Mor' yn y gystadleuaeth 'Y Darlun Mawr'.



Llongyfarchiadau i Sam Ebenezer, Tal-y-bont, ar ei lwyddiant yn rownd gyntaf y gystadleuaeth "Can you Sing". Mi fydd yn cystadlu yn y rownd gogynderfynol ym Mhorthcawl, yn Ionawr 2008. Pob lwc i ti Sam!

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Polly a Santiago, Temperance, Taliesin ar enedigaeth mab.

Llongyfarchiadau i dad-cu a mam-gu sef Huw a Mair Rowlands, Gwarffelin. Ganwyd merch fach i Barry a Dwynwen, a chwaer fach i Noa ym Mhenrhyn-coch.

Beirniadu

Llongyfarchiadau i Dewi Jenkins, Tyngraig ar gael ei ddewis i feirniadu'r hyrddod hŷn yn arwerthiant Cymdeithas Defaid Mynydd Maldwyn a Cheredigion yn Nolgellau ar 19eg Hydref. Da iawn ti.

Diolch

Dymuna Aeron ac Aileen, Maesmeillion, Tal-y-bont, ddiolch i'w teulu a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion, blodau a'r dymuniadau gorau a dderbyniwyd pan fu'r ddau'n dathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar.

O'r Ysbyty

Da clywed fod Mair Nutting, Tŷhen, Henllys adre ar ôl treulio ychydig o ddyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Brysia wella.

Penblwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Evan Evans, Tynrhelig a fu'n dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Helen a Peter Jenkins, Clydfan ar enedigaeth efeilliaid, Cai a Cati.

Ymddiheuriad

Yn anffodus sillafwyd enw Freya Sandi, merch fach Nicola ac Andrew, Penparcau, wyres David Owen Evans, 17 Maesyderi, Tal-y-bont yn anghywir yn rhifyn mis Hydref o Papur Pawb.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda theulu Jac Williams, 3 North Road, Tre'r Ddôl a fu farw yn ddiweddar a gyda Sid Titman, Maesyderi ar farwolaeth ei fab Phillip.

Cartref Newydd

Pob hapusrwydd a dymuniadau gorau i Ian a Sara sydd wedi symud i fyw i Morlais yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau hefyd i Catrin, Siôn ac Efa fach sydd wedi symud i'r Bwthyn, Fagwyr.

Marwolaeth

Bu farw W. B Evans, Stryd Groes, Bow St, mab y diweddar Tim ac Edith Evans, Penlôn a brawd Doreen. Cydymdeimlwn a'r teulu oll.

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

M & D PLUMBERS
Plumbing & Heating



Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bersiarywyr;
Yswiriant Isawr;



Cysylltwch â Ni yn gyntaf ar
01974 282624 / 07773978352

Cyfarfod y Chwiorydd, Rehoboth

Cychwynnwyd ein cyfarfod cyntaf ar brynhawn Mawrth, 9 Hydref, pan aeth tyrfa dda ohonom i ymweld â Chefn Caer ym Mhennal, tŷ Neuadd Canoloesol Owain Glyndŵr sy'n dyddio o gyfnod cyn y bymthegfed ganrif. Cawsom ein tywys ar daith bersonol, ddiddorol o amgylch y tŷ gan y perchennog, Elfyn Rowlands.

Roedd Cefn Caer yn ganolfan bwysig ar gyfer noddi beirdd. Byddai'r tŷ hwn wedi cael ei ddefnyddio gan Owain Glyndŵr pan luniwyd llythyr Pennal. Gellir gweld replica o Goron Glyndŵr a chleddyf y genedl, sydd ar steil a roddwyd i'r Tywysog Owain Glyndŵr yn anrheg gan Frenin Ffrainc ar achlysur y Coroni yn 1404. Diolchwyd yn ddiffuant gan ein llywydd, Eirlys Jones, gan bwysleisio pa mor bwysig yw i warchod ein treftadaeth.

Erbyn hyn roedd pawb yn barod am baned a throwyd tuag adref gan sefyll yn yr Hen Efail, Ffwrnais, am de blasus wedi ei baratoi gan Tegwen, Margaret, Edna, Eirlys a Non.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Bu'r mis diwethaf yn un prysur i nifer o aelodau'r gangen gan iddynt ymweld â Theatr y Werin ar 5 Hydref i fwynhau cynhyrchiad gan Theatr Genedlaethol Cymru, sef 'Porth y Byddar'. Yr wythnos ddilynol aethom i gyngerdd dathlu pen-blwydd Olwen Davies yn y Neuadd Fawr a oedd yn codi arian tuag at Broject Plant Chernobyl.

Cyfarfu'r gangen dan lywyddiaeth Eryl Evans ar 15 Hydref pan groesawyd Beryl Vaughan i gynnal y noson. Fel aelod o'r Cyngor Cenhadaeth Byd-eang ers 1999 mae Beryl wedi cynrychioli'r Eglwys Bresbyteriaidd ar deithiau i wahanol wledydd ar draws y byd ac wedi gweld dros ei hunan sut mae'r arian sy'n cael ei godi yn cael ei ddefnyddio mewn gwledydd megis Samoa, Taiwan, Singapore, Malaysia, India, Zambia a Bangladesh. Bu'n siarad mewn gwahanol eglwysi yn y gwledydd hynny gan lefaru yn Gymraeg. Dangosodd inni'r dillad amrywiol ac amryliw a gafodd gan drigolion y gwahanol wledydd, ac roedd ei ffordd heintus o adrodd storiâu yn gwneud hon yn noson ddiddorol a chofiadwy. Diolchwyd iddi gan Diana Jones. Paratowyd te ar ddiwedd y noson gan Elizabeth Evans, Falyri Jenkins a Megan Mai. Bu nifer o'r aelodau ar deithiau cerdded ar brynhawniau Mercher yn ystod y mis a hyd yn hyn cafwyd tywydd bendigedig am bedair wythnos yn olynol, a phawb yn medru mwynhau'r golygfeydd godidog sydd yn yr ardal yn ogystal â gweld lliwiau'r hydref ar eu gorau.

Cwmni Theatr Bara Caws
Neuadd Goffa Tal-y-bont

"Tri Rhan o Dair"

Nos Fercher, 14 Tachwedd
am 7.30

AGM Ffrindiau Cartref Tregerddan

Nos Iau, 22 Tachwedd
7.30 yng Nghartref
Tregerddan
Croeso cynnes i bawb

PLAID CYMRU
Cangen Tal-y-bont a'r cylch

'CWRDD Â'CH CYNGHORYDD'

Cynhelir bore coffi pryd y
bydd cyfle i gwrdd â'r
cynghorydd sir, Elen ap
Gwynn, yn y Neuadd Goffa

Bore Sadwrn 1 Rhagfyr 2007

Croeso i bawb

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

Cynhelir y

FFAIR NADOLIG

Ar ddydd Sadwrn, 24 Tachwedd
am 2.00 o'r gloch

Pris mynediad: £1 (yn cynnwys te a chacen)

Plant ysgol gynradd am ddim

Amryw o stondinau/raffl

Croeso cynnes i bawb

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Cafodd B3 a 4 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy celf yn Amgueddfa Ceredigion ar Hydref 12fed fel rhan o weithgareddau – 'Y Darlun Mawr'. Llongyfarchiadau i Sion Nelmes, B3 ar ennill y wobr gyntaf am arlunio 'Y Mor' yn y gystadleuaeth 'Y Darlun Mawr'.

Yna ar Hydref 18fed, bu B3 a 4 yn edrych ar waith yr artist Siani Rhys James yn y Llyfrgell Genedlaethol. Dyma sylwadau rai o'r disgyblion:

Aethon ni am dro rownd y Llyfrgell Genedlaethol. Gwelsom gypyrddau sy'n sleidio ar draws.

Catrin



Roedden ni wedi gwneud llun o Shani Rhys James gyda pastelau lliw.
Isha

Roedden ni wedi gweld llyfrau mawr gyda geiriau bach
Caitlin

Gwelais i lun anferthol o Shani Rhys James.
Carwyn

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd y ddwy gyfrol gyntaf yn y gyfres CHWEDLAU CHWIM gan wasg Y LOLEFA yn dwyn y teitlau Rhys a Meinir a Cantre'r Gwaelod. Cafodd y ddwy gyfrol liwgar a deniadol groeso mawr yn Dosbarth 3. Dyma farn rai o'r disgyblion amdanynt.

Rhys a Meinir

Roedd y stori yn fendigedig ond mae'n stori drist hefyd. Roedd Rhys wedi cerfio calon ar goeden i ddangos eu bod yn ddau gariad. Roedd Rhys a Meinir yn mynd i briodi ond aeth Meinir ar goll yn y goedwig yn Nant Gwrtheyrn. Mae'r artist wedi defnyddio lliwiau tywyll i greu llun gwych o'r storm a sgerbwd Meinir yn cwmpo allan o'r goeden. Hwn oedd y llun gorau yn y llyfr. Byddai'n syniad da i Siôn Corn i roi'r llyfr yma yn sanau nadolig plant Cymru.

Alex, Callum a Bryn

Cantre'r Gwaelod

Mae cymeriadau gwahanol yn y stori ac mae'r enwau yn newydd i ni. Yn y lluniau mae Seithenyn yn edrych fel Celt achos mae'n gwisgo torch geltaidd ac mae ei wallt yn stico lan. Wrth edrych ar y lluniau hefyd rydyn ni wedi dysgu bod pobl Cantre'r Gwaelod yn byw mewn tai crwn. Mae'r stori'n dda achos mae'r chwedl yn ddiddorol. Rydyn ni'n gallu darllen y geiriau a'r brawddegau yn eitha hawdd. Rydyn ni'n credu y bydd llawer o blant yn hoffi'r llyfr yma. Byddwn ni yn ofalus iawn pan fyddwn ni'n mynd i lan y môr y Borth y tro nesa.

Niamh O'Brian, Mari a Niamh O'Donnell

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont



Tynnu tatws!

Ar Dydd Mercher, Hydref 24 aeth blwyddyn 4 a 5 i fferm Berthlwyd i dynnu tatws. Dechreuon ni ein taith o'r ysgol ac aethom ar draws y bont sy'n croesu Afon Ceulan. Gweslom ni Wartheg Duon Cymreig a 'Belgium Blue'. Cerddom ni trwy'r Felin tan ein bod ni'n cyrraedd fferm Berthlwyd.

Dangosodd Mr a Mrs Jones dractor a oedd bellach yn 43 mlwydd oed. Roedd gan Mr Jones Ransome (peiriant codi tatws).

Gyrrodd Mr Jones o amgylch yr ardd ac ar ôl hynny cododd pawb y tatws oedd ar y ddaear. Roedd yna datws melyn a thatws coch.

Llenwon ni lawer o fasgedi gyda'r tatws.

Prynodd pawb fag o datws am 50c.

Wedyn bu Mr a Mrs Jones yn garedig iawn yn rhoi diod a bisged yr un i ni. Diwedd perffaith i'r bore

Tara Howard ac Esther Ifan

Ysgol Penweddig

Ar Ddydd Iau aeth blwyddyn 5 a 6 i Ysgol Penweddig i chwarae gêm drama gyda Cwmni Brolio Penweddig.

Ar y ffordd, fe stopion ni yn Ysgol Penrhyn-coch i godi plant i fynd i Benweddig.

Pan gyrhaeddodd ni yn Ysgol Penweddig aethom i'r neuadd i gwrdd â'r actorion. Wedyn aethom i stafell fawr i ddechrau chwarae gêm drama.

Y gêm gyntaf oedd actio bod cordyn yn tynnu ein clust, ein trwyn a'n penolau o amgylch yr ystafell fawr. Yr ail gêm oedd bod angen i ni sefyll mewn cylch a dweud ein henwau gyda symudiad yn ei ddilyn.

Cawsom gêm eraill hefyd ac fe fwynheuodd pawb yn fawr iawn. Diolch i Ysgol Penweddig am y croeso.

Hannah a Steffan



Trip i Amgueddfa Llywernog

Yn ystod y mis aeth Blwyddyn 5 a 6 i Amgueddfa Mwyn ac Arian Llywernog. Fe aethom ni mewn bysau mini. Roedd angen sgidiau cerdded, tocyn bwyd a chot law arnom ni. Stopion ni yng Nghwm Leri i edrych ar yr olygfa a gweld olion trac Lein Fach yr Hafan. Roedd pawb yn cael cyfle i ffeindio'r trac ger hen waith mwyn Bwlchglas. Roedd y trac yn crose'r heol ger bwthyn Dolgarnwen. Stopiom ni mewn coedwig o'r enw Moel Golomen a chwarae tanciau olew fel drymiau.

Aethom nôl ar y bus a mynd am Nant-y-moch. Fe gawsom y profiad o gerdded dros yr argae cyn mynd i weld cofeb brwydr Mynydd Hyddgen. Wedyn aethom ymlaen i Amgueddfa Llywernog. Roedd yn rhaid i ni wisgo helmed a golau i fynd o dan ddaear. Roedd yn brofiad gwych i weld sut oedd y mwynwyr yn gweithio dros can mlynedd yn ôl. Cawsom hwyl yn padellu am aur hefyd.

Diolch yn fawr i Mr Davies am drefnu'r wibdaith. Gawn ni fynd eto rywbryd plis?

Elen ac Alwenna

Cystadleuaeth Trawsgwlad

Dydd Iau 18/10/07 aeth plant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 i gystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd ar Gaeau'r Ficerdy. Roedd tua 90 o blant ymhob ras. Roedd tua 25 o blant yr ysgol wedi cystadlu ac fe lwyddodd pawb yn dda iawn.

Llongyfarchiadau mawr i Josh Abbott, Gwenno Evans ac Alwenna Jenkins am ddod yn y 12 cyntaf. Pob hwyl i'r tri yn y gystadleuaeth nesaf yn y Gwanwyn. Cafodd pawb hwyl!

CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT GYRFA CHWIST DOFEDNOD

Neuadd Goffa Tal-y-bont
8.00 yh
Nos Fercher, 19 Rhagfyr

Os am dacs neu fws mini

CAMBRIAN CABS

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

CEFNOGWCH GYMRO LLEOL

H. LLOYD WILLIAMS
CYNINAL A CHADW GERDDI
TORRI PORFA A SIETYN,
GOSOD DECKING A SLABIAU

DOES DIM YN ORMOD O WAITH!

32 Bryncastell Ffôn: 01970 820699
Bow Street Symudol: 07966 105519

CYMDEITHAS
SIOE TAL-Y-BONT

CINIO BLYNYDDOL

Gwraig Wadd –
Beti Griffiths, Llanilar
Nos Sadwrn, 1 Rhagfyr
yn Y Llew Du, Tal-y-bont
Cwrdd am 7.30yh,
bwyd am 8.00yh
Enwau i Janet Jones erbyn
24 Tachwedd
832 293



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

CFFI Tal-y-bont a'r Cylch

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y clwb eleni ar nos Sul 14 Hydref, yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, gyda'r Parch. Wyn Morris. Llawer o ddiolch i'r aelodau a gymerodd ran ac i ffrindiau'r clwb am ddod i'n cefnogi. Braff oedd gweld cynnifer yno, a codwyd £100.25 tuag at 'Dechrau Newydd i Sierra Leone'.



Dros yr wythnosau diwethaf bu'r aelodau i gyd yn paratoi tuag at Eisteddfod y Sir, a gynhaliwyd eleni ar nos Iau a dydd Sadwrn, 1af a'r 3ydd o Dachwedd, yn Neuadd Celfyddydau Prifysgol Llanbed. Llawer o ddiolch i'r rheiny ohonoch a ddaeth lawr i'n cefnogi. Bu'r aelodau yn cystadlu mewn amryw o gystadlaethau, ar yr ochr gwaith cartref, ynghyd â Unawd dan 16, Canu Emyn, Meimio i Gerddoriaeth, Sgets, Ymgom a Deialog ar y pryd. Bu cystadlu brwd rhwng yr holl glybiau. Dyma'r canlyniadau:

Unawd dan 16	1af	Elen Thomas
Canu Emyn	1af	Elen Thomas
Meimio i Gerddoriaeth	3ydd	
Gwaith Crefft	3ydd	Geraint Jenkins, Cerrigaranau

Ar ddiwedd y dydd daeth y clwb yn y 10fed safle. Llongyfarchiadau i Elen Thomas ar ennill Cwpan Her Mr a Mrs Gwyndaf James am yr Unawdydd Gorau.

CSJ



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Agorodd y Cadeirydd, y Cyng. Glenys Edwards, y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 29ain o Hydref drwy estyn croeso cynnes i'w chyd-aelodau ac i'r clerc newydd. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Medi fel rhai cywir ac arwyddwyd hwy gan y Cadeirydd.

Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Cyng. Ellen ap Gwynn ar gynnwys y ddogfen ymgynghorol *Cymuned a rennir sy'n argymhell* sefydlu cydweithrediad mwy ffurfiol rhwng Cyngorau Sir a Chynghorau Bro a Thref. Cytunwyd i drafod barn y Cyngor ar yr adroddiad yn y cyfarfod nesaf cyn llunio ymateb. Rhoddwyd adroddiad gan y Cyng. Nest Jenkins ar y Gynhadledd *Un Llais Cymru* a gynhaliwyd yn Llandrindod yn ddiweddar. Cafwyd anerchiadau niferus yn ystod sesiwn y bore a phasiwyd pob un o'r chwe chynnig oedd gerbron y Cyfarfod Blyneddol Cyffredinol a gynhaliwyd yn y pwn. Cafwyd adroddiad hefyd gan y Cyng. Delyth Ifan ar Bolisi Trwyddedu Ceredigion. Bwriad y polisi trwyddedu yw atal troseddau ac anhrefn, sicrhau diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus a diogelu plant rhag niwed. Gan nad oedd problemau penodol amlwg o fewn y Gymuned ar y mater hwn, nid chyflwynwyd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad.

Cytunwyd i anfon llythyr at Edwina Hart AS, Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn gofyn iddi beidio â symud ymlaen i uno Ymddiriedolaethau Iechyd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro hyd nes y cyhoeddir argymhellion y cynllun Iechyd Gwledig.

Mewn ymateb i'r gwahoddiad blyneddol gan Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys i osod blaenoriaethau ar gyfer plismona o fewn yr ardal leol, cytunwyd bod y Cyngor yn cynnig un flaenoriaeth yn unig ar

gyfer y flwyddyn nesaf, sef bod yr awdurdod yn parhau a chryfhau'r presenoldeb lleol gan yr heddwas cymunedol.

Daeth gwahoddiad eto eleni gan uned Llwybrau Cyhoeddus y Cyngor Sir i wneud cais am gymhorthdal i wella llwybrau. Pasiwyd i ohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser, os oes unrhyw aelod o'r cyhoedd yn ymwybodol o anghenion penodol i wella cyflwr llwybr neu lwybrau cyhoeddus o fewn y gymuned, yna dylent gysylltu â'r Cyngor.

Penderfynwyd trefnu Coeden Nadolig a goleuadau yn y pentref ac yn Bont-goch ar yr un patrwm â 2006, ond gan anelu at eu cysylltu ychydig yn gynharach na'r llynedd. Cytunwyd i wahodd yr Ysgol Gymunedol i chwarae rhan debyg i'r llynedd yn y seremoni agoriadol.

Adroddwyd bod y cais i godi tŷ annedd yng ngardd Pant-y-llyn (A070853) wedi ei wrthod. Derbyniwyd dau gais cynllunio newydd, sef codi adeilad amaethyddol yn Plas y Bryniau [A071044] ac arena ceffylau yn Llwyn-adda [A071053]. Cytunodd y Cyngor i anfon sylwadau i'r Awdurdod Cynllunio ar y ceisiadau hyn.

Pasiwyd hefyd i anfon llythyr at y Cyngor Sir yn mynegi pryder ynghylch diogelwch y bwyd wedi ei rewi a ddisberthir yn awr trwy'r gwasanaeth Pryd ar Glud.

D.S. O hyn allan dylid anfon unrhyw ohebiaeth parthed y Cyngor at: Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, Pengwern, Tal-y-bont, Ceredigion. SY24 5EN neu gehpengwern@yahoo.co.uk [Ffôn: 01970 832231]

GH

Lansio Gwobrau Cyntaf Aber newydd pwysig Barclays gan Menter Aberystwyth

Mae Menter Aberystwyth yn lansio Gwobrau Cyntaf Aber Barclays, cynllun gwobrwyo i gydnabod safonau ardderchog ardal Menter Aberystwyth. Bydd y gwobrwyo'n digwydd ar y 1 Chwefror 2008 yng Ngwesty'r Conrah rhwng 12 a 2 o'r gloch y prynhawn, dan nawdd Banc Barclays.

Gwobrau Cyntaf Aber Banc Barclays yw'r cynllun gwobrwyo newydd a ddyluniwyd i gydnabod ymarfer gorau a rhagoriaeth unigolion, mudiadau a busnesau ardal Menter Aberystwyth. Mae 8 categori ar gyfer pob agwedd yn y gymuned. Rhagwelir y bydd diddordeb mawr ymhlith busnesau a mudiadau bach a mawr Aberystwyth a'r cyffiniau yn y gystadleuaeth.

Dywed Gareth Rowlands, aelod is-bwyllgor Cyntaf Aber: "Rwy'n meddwl bod cysyniad Cyntaf Aber yn ffantastig. Mae'n bwysig cydnabod safonau ac ansawdd uchel."

Mae wyth categori i ddewis ohonyn nhw, ac mae nhw'n trin pob agwedd o'r gymdeithas. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau fydd Cyntaf o Rhagfyr 2007.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Eluned Lewis ar 01970 624912 neu ebostiwrch eluned.lewis@menter-aberystwyth.org.uk

Gwobrau Cyntaf
Aber

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llan-Gwynnwr
(01970) 832 674

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**



Iwan Jones, Technogydd Pensaernïol
Gollinorwydd, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832768

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Ers imi ysgrifennu fy ngholofn ddiwethaf, rwyf wedi mynychu'r Ffair Geffylau a gynhaliwyd ym Mhontrhydfendigaid ar ddiwedd mis Medi, a braf oedd gweld cymaint o dyrfa yno! Yn fwy diweddar, rwyf wedi cael y cyfle i fynychu nifer o ddigwyddiadau eraill ar hyd a lled Ceredigion gan gynnwys agoriad swyddogol y Ganolfan Ddelweddu newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fe wnes hefyd agor adeilad newydd Canolfan Rhosserchan yng Nghapel Seion, Aberystwyth ac, yn rhinwedd fy swydd fel Gweinidog dros Faterion Gwledig, ymwelais â'r Ffair Hyrddod yn Llanelwedd.



Daeth dau ddatganiad pwysig i Geredigion yn ystod y mis diwethaf oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad. Yn gyntaf, ar ddechrau'r mis fe amlinellodd y Gweinidog dros Ddrafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones AC, ei flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth yng Nghymru dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r blaenoriaethau yma'n cynnwys gwella'r gwasanaeth ar y rheilffordd rhwng Aberystwyth a'r Amwythig ac ehangu'r gwasanaeth TrawsCambria. Ers imi deithio i lawr o Geredigion i Fae Caerdydd ar y TrawsCambria ac yna yn ôl ar y trên, rwyf wedi gweld dros fy hun y problemau sy'n wynebu trigolion lleol wrth iddynt geisio defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, felly rwy'n gobeithio y bydd y buddsoddiad newydd yn helpu gwella'r gwasanaeth.


Yn ail, daeth cadarnhad oddi wrth y Gweinidog Iechyd, Edwina Hart AC, ei bod am sicrhau dyfodol llewyrchus i Ysbyty Bronglais. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod dal am fuddsoddi £20 miliwn yn y gwasanaeth iechyd cymunedol yng Ngheredigion drwy wella'r ddarpariaeth yn ysbytai Tregaron ac Aberteifi, ac agor canolfan iechyd newydd yn Aberaeron. Mae hyn yn sicrhau newydd da dros ben i drigolion Ceredigion. Mae'r trafodaethau i ddatblygu cynllun ar gyfer ysbyty newydd yn Aberteifi eisoes yn mynd yn eu blaen. Rwyf nawr yn gobeithio y bydd cadarnhau'r buddsoddiad yma yn awr yn annog trafodaeth debyg ar ddyfodol adeilad ysbyty Tregaron. Y gobaith yn y pen draw yw datblygu rhwydwaith ymysg ein hysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, ac Ysbyty Bronglais er mwyn darparu'r gwasanaeth iechyd yng Ngheredigion yn unol â'r Cynllun Iechyd Gwledig fydd yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol agos.

TEIARS HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos



“OS MÊTS”

Cafwyd noson arbennig a llwyddiannus i lansio “OS MÊTS”, y Gymdeithas Gydenwadol ar gyfer ieuencid, nos Fercher Hydref 10fed 2007 pan ddaeth tua 15 ynghyd i fwynhau gwahanol weithgareddau dan arweiniad Siôn Evans, Dirprwy Warden Coleg y Bala. Darparwyd lluniaeth arbennig i bawb. Yna nos Fercher Hydref 24ain mwynhawyd orig yn nofio yn y Ganolfan yng Nghlarach.

Gwahoddir ieuencid y fro sydd o oedran ysgol uwchradd i ddod i'r Garn nos Fercher Tachwedd 7fed am 7 o'r gloch i noson amrywiol dan y teitl “Dewch yn llw”. Yna yn y Garn eto nos Fercher Tachwedd 21ain ceir noson yn “Holi hyn a holi'r llall”.

Bwriedir hefyd i drefnu mynd i Bantomeim Felin-fach ar nos Fercher, Rhagfyr 12fed 2007. Dewch, mae croeso a hwyl i'w gael yn “OS MÊTS”. Cewch fwy o wybodaeth oddi wrth Dewi Hughes (01970 828026)

Gwasanaeth gwerthu a phrynu

Stondin Pawb

Ar Werth

Tanc olew plastig ail law yn dal 1,200 o litrau.
Delfrydol i gadw disel coch neu danwydd. Pris i'w drafod.
Ffoniwch Bleddyn: 01970 832 448

Beic Mynydd

Trek 3700, addas i blentyn 13-15 oed - £60
Ffoniwch Gwydion - 01970 832543

Am werthu neu prynu cysylltwch â:
Catrin ar **01970 832697** neu, well fyth,
ar e bost: catrin@simnewen.me.uk.

Bydd angen i chi adael **manyion** o'r eitem, **amcan bris**,
rhif ffôn ac **enw cyswllt**.

Nid yw Papur Pawb yn cymeryd unrhyw gyfrifoldeb am y mwyddau a bryni'r/gwerthir.



Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com

yloffa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com



Simon Lloyd-Williams yn cyflwyno Tarian Rhosgoch i Enoc Jenkins

Cymdeithas Defaid Mynydd

Pnawn Llun, 5 Tachwedd oedd dyddiad cychwyn arbrawf wŷn hyrddod y Gymdeithas. Daeth 16 o aelodau a 30 o wŷn hyrddod i'r Prawf a bydd rhain yn cyd-bori ar borfa'n unig ar fferm Trawsgoed tan mis Ebrill. Rhoddir Tarian Rhosgoch i'r oen hwrdd mwyaf addawol a'r aelodau sydd yn cymryd rhan yn fotio 3 phwynt i'r gorau, dau i'r ail ac un i'r trydydd. Y canlyniad oedd i hwrdd Enoc Jenkins, Tynygraig ennill y darian ac un Dafydd Jenkins, Tanyrallt yn ail. Llonyfarchiadau i'r ddau frawd.

Bydd yr wŷn yn cael eu pwyso efo Lisa Evans, Hybu Cig Cymru a dau neu dri o'r perchnogion dydd Llun, 17eg Rhagfyr, 28ain Ionawr, 31ain Mawrth a 7fed Ebrill. Cychwynnir am 10.30 y bore bob tro. Bydd pwsyo mis Ebrill yn cynnwys mesur brasder a cyhyr ac yna daw y Prawf i ben.

Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar iawn i'r Brifysgol am roddi tir addas i'r Prawf sydd yng ngofal Steve Lewis, Rheolwr Cynllun y Defaid. Cewch yr hanes ym Mhapur Pawb ym mis Mai.

Gareth Evans

Capel Bethesda Tynant

Mae tymor yr hydref wedi cyrraedd, a ninnau wedi mwynhau 'haf bach mihangel' ar tywydd wedi bod lawer yn well nag yr hyn a gafwyd yn ystod yr haf. Er gwaethaf y tywydd agorodd y capel fel arfer ar ddechrau'r haf a chafwyd oedfaon yn fisol hyd yr hydref. Diolchwn yn fawr iawn i bob un a ddaeth atom, i gyhoeddi'r neges.

Fel y gwyddoch mis Gorffennaf yw uchafbwynt ein cyfarfodydd ac eleni eto doedd dim yn wahanol. Daeth aelodau ysgol sul Bethel atom, ac fel arfer roedd y plant ar eu gorau, ond yr oedd un gwahaniaeth mawr i'r blynyddoedd blaenorol, daeth glaw ofnadwy a methwyd cael picnic ar y cae. Blwyddyn nesaf bydd rhaid trefnu diwrnod braf!

Cynhaliwyd y cwrdd diolchgarwch ar ddydd Sul, 7 Hydref a thraddodwyd y neges o ddiolch gan Miss Beti Griffiths. Hyfrydwch o'r mwyaf i ni'r ychydig aelodau oedd y syndod o weld dwy ran o dair o'r capel yn llawn. Roedd perthnasau i deuluoedd ffermydd Bwlchydderwen a Winllan yn bresennol a chyn aelod o Seion, Ceulan.

Diolchwn yn wresog i bob un ohonoch am eich cefnogaeth a hyfryd oedd cael sgwrsio am yr hen atgofion. Diolchwn hefyd i Brenda Jeeves am godi canu yn yr oedfaon yn ystod y flwyddyn, ac i Mair, Sallie ac Eileen (Glanaber gynt) sydd yn ein cefnogi yn ariannol ar hyd y blynyddoedd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**A DAVIES
TRYDANOL**

Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLETH
Powys SY20 8SR

ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213



K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235



Clwb Nos Wener

Agorodd tymor Clwb Nos Wener yng nghwmni Steave Eaves a Lleuwen Steffan. Cafwyd perfformiadau ardderchog gan y ddau – gyda'r grŵp bacio hefyd yn neilltuol. Clywsom rhai o'r hen ffefrynnau gan Steave a hefyd rhai caneuon mwy newydd. Roedd llais hudolus Lleuwen wedi swyno pawb a llwyddodd hi a'i thad i greu awyrgylch hyfryd. Derbyniad gwresog gan y gynulleidfa – yn arbennig merched/grŵpis brwdfrydig y rhes gefn! Cychwyniad o safon i dymor eleni – ac mae'r Clwb mae'n amlwg yn mynd o nerth i nerth. Tro nesaf – Dewi Pws.

Ravin' Stompers Disco John ac Alun

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Nos Wener
16 Tachwedd
7.30pm

Tocynnau
Heulwen Astley
01970 832486

Canlyniad SWDOCW mis diwethaf

Dafydd Parry, Cwm Glas, Tal-y-bont – tocyn llyfrau £10.00 iddo ef.
Nawr beth am gynnig ar Swdocw Tachwedd? Unwaith eto £10.00 o wobr

Poli - y Parot Piws

Mae cwmni cyhoeddi @ebol o Dal-y-bont newydd gyhoeddi dau lyfr newydd yng nghyfres y Parot Piws ar gyfer plant. Mae'r llyfrau newydd yn cynnwys **Môr-ladron** a **Pêl-droed**. Mae **Môr-ladron** yn cynnwys pob math o weithgareddau a sticeri sy'n ymwneud â môr-ladron, tra mae **Pêl-droed** yn cynnwys gweithgareddau difyr i'r plant hynny sy'n mwynhau pêl-droed. Mae'r llyfrau dwyieithog yma yn addas ar gyfer plant sydd yn siarad Cymraeg neu'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Mae'r llyfrau yn cynnig cyfle gwych i chwarae a mwynhau - a dysgu'r un pryd. Yn ôl Poli, Swyddog Marchnata @ebol "Craw! Tawn ni byth! - dyma anrhegion gwych i'r Dolig! Craw! - Dolig Llawen bawb!"
www.atebol.com



Diolch

Dyma llythyr bach i ddiolch i bawb sydd wedi rhoi croeso i fi yn Nhal-y-Bont. Wnes i fwynhau'r tair wythnos yn fawr iawn.

Bues i yn Ysgol Penweddig yn Aberystwyth am bythefnos a dw i wedi gwneud lot o ffrindiau yno ac yn Nhal-y-Bont a mae pawb yn neis iawn!

Wythnos hon wnes i gymryd rhan yn Eisteddfod y bobl ifanc yma yn y Wladfa. Adroddais i gerdd o'r enw: "Fy stafell wely" gan Geraint Lovgreen a cefais yr ail wobr. Gwnes i'r cyfieithu hefyd, ac enillais i efo hwnna.

Sws fawr i pawb a dw i'n mynd i fynd draw i'ch gweld chi eto!

DIOLCH YN FAWR IAWN!!

Gwen Jones

Swdocw

Sut i chwarae

Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9.

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 7 Rhagfyr.

Gwobr: Tocyn Llyfr £10

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

7			8	4		6		
		9	5	6		8		
					2	5		
5		1		7		4		8
2	8						6	5
6		4		5		9		1
		3	6					
		8		1	3	2		
		2		8	4			3

CLWB NOS WENER

DEWI PWS



8.00 nos Wener,
Tachwedd 23
yn y Llew Du, Talybont
£5
Croeso i bawb!

CHWARAEON

Clwb Pêl-droed leuenctid Tal-y-bont

Am y tro cyntaf ers blynyddoedd bu'r tywydd yn ffafriol ar gyfer dechrau tymor newydd y Cynghrair. Mae gan Dal-y-bont wyth tîm yn cystadlu eleni. Mae'r tîm dan 15 oed, dan reolaeth Dick Squires, wedi setlo lawr yn ystod yr wythnosau diwethaf drwy ennill yn dda yn erbyn Padarn a Llanilar, wedi dechrau simsan pan gollwyd y tair gêm gyntaf.

Mae gan Dal-y-bont dau dîm yn y cynghrair dan 13 oed. Maent yn chwarae pêl-droed 11 bob ochr am y tro cyntaf. Mae Tal-y-bont A wedi cael dechrau gwyd drwy ennill pump o'i chwe gêm gyntaf ac mae'r tîm B, sy'n flwyddyn yn iau, wedi ennill tair, colli un a chwarae dwy gêm gyfartal hyd yn hyn. Roedd yr un golled yn y 'derby' lleol yn erbyn Tal-y-bont A!

Yn yr adrannau i dimau dan 11 oed, chwaraewyd am Gwpan RAFA ar ddechrau'r tymor. Wedi dechrau da, colodd Tal-y-bont yn y rownd gynderfynol o 1-0 yn erbyn buddugwyr y gystadleuaeth Cewri Un. Cafwyd perfformiad da gan y Teirw hefyd cyn colli drwy giciau o'r smotyn. O ganlyniad i'r llwyddiant yn y gystadleuaeth hon gosodwyd Tal-y-bont yn yr Uwch-gynghrair am y bedwaredd flwyddyn yn olynol - prawf bod Tal-y-bont yn parhau i gynhyrchu pêl-droedwyr o safon. Yn y chwe gêm gyntaf enillwyd dwy a chollwyd pedair. Mae'r Teirw yn chwarae yn Adran 1 ond, ar ôl ennill yn dda yn erbyn Penrhyn-coch ar y diwrnod cyntaf, collwyd y pedair gêm ganlynol. Mae lle i wella felly.

Mae Merched Tal-y-bont yn cystadlu yn yr ail adran. Ennill tair gêm, colli dwy ac un gêm gyfartal yw'r record hyd yn hyn. Byddai'r canlyniadau yn well oni bai fod tair merch, Nia Jones, Gwenno Evans ac Ellie Margrave Jones, yn chwarae i'r tîm cyntaf yn yr Uwch-gynghrair.

Mae'r Teriys yn cynnwys nifer o fechgyn sy'n chwarae mewn tîm am y tro cyntaf sef: Kieren Kelly, Rhodri Hughes, Gerallt Jenkins, Siôn Nemes, Taliesin Lamott, Matthew Edwards, Josh Mayhew a Bryn Dennis. Yn anffodus gosodwyd y tîm yn yr adran anghywir ar ddechrau'r tymor a chollwyd sawl gêm o sgoriau uchel. Ers hynny maent wedi symud i adran is, gan gystadlu'n dda yn y gêm gyntaf, cyn colli o drwch blewyn, 2-3. Mae gobaith felly am ddyddiau gwell i ddod.

Llongyfarchiadau i Hefin Hopkins, Ryan Thomas a Richard Jenkins sydd wedi cynrychioli Academi Aberystwyth ac Ysgolion Ceredigion y tymor hwn. Cafodd Richard hefyd yr anrhydedd o chwarae ym mhencampwriaeth y WSFA. Llongyfarchiadau hefyd i Carwyn Hughes a gynrychiolodd Aberystwyth ym

mhencampwriaethau HSBC (Tom Yeoman) y tymor hwn.

Pob lwc i'r chwaraewyr a hyfforddwyr i gyd gan obeithio y bydd y tywydd teg yn parhau.

Brian Richards

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278